# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Ebrill 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Y Dreth Gyngor yn Sir Benfro

**C8 Richard Edwards:** Sut yr effeithiodd y fformwla asesu gwariant safonol ar lefel y dreth gyngor yn Sir Benfro? (OAQ10810)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae cynnydd yn lefel y dreth gyngor yn Sir Benfro, neu yn unrhyw fan arall, yn dibynnu ar ffactorau amrywiol. Un ffactor yn unig yw'r fformwla asesu gwariant safonol, ochr yn ochr â newidiadau yn swyddogaethau awdurdodau lleol a phenderfyniadau a wna'r awdurdod lleol. Gan fod y fformwla asesu gwariant safonol newydd yn cydnabod teneurwydd ac amddifadedd yn well na'r hen fformwla, mae'n caniatáu yn fwy effeithiol ar gyfer yr angen ychwanegol i wario sydd gan awdurdodau lle mae'r rheini'n faterion penodol iddynt. Adlewyrchir hyn o bosibl yn y newyddion ardderchog i drethdalwyr yn Sir Benfro, lle mae'r dreth gyngor ond yn cynyddu 1 y cant.

### Ombwdsmon ar gyfer Tai Cymru

**C9 Dafydd Wigley:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddatblygu ombwdsmon ar gyfer tai Cymru? (OAQ10820)

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch rwy'n sicr, rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu gwasanaeth ombwdsmon tai yng Nghymru. Yr wyf wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth ombwdsmon ar gyfer y sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a byddaf yn ceisio cynnwys hwnnw mewn cynigion deddfwriaeth sylfaenol priodol cyn gynted ag y cyfyd cyfle.

### Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

**C10 Janet Davies:** Pa dystiolaeth a gasglwyd i brofi cefnogaeth tenantiaid awdurdodau lleol i drosglwyddo eu cartrefi i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? (OAQ10835)

**Edwina Hart:** Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb yn y pendraw i reoli eu stoc tai. Mater i awdurdodau unigol yw pwyso a mesur yr opsiynau gyda'u tenantiaid. Os ydynt yn penderfynu mai trosglwyddo'r stoc sydd fwyaf addas i'w hamgylchiadau, yna ceir trefn bendant i'w dilyn. Yn benodol, rhaid iddynt brofi lefel y gefnogaeth drwy amrywiol gamau ymgynghori gyda'r tenantiaid, cyn cynnal pleidlais ffurfiol. At hynny, ni chaiff unrhyw drosglwyddiad fwrw ymlaen heb fy nghaniatâd, ac ni fydd y caniatâd hwnnw ar gael oni bai fy mod yn fodlon bod y mwyafrif o'r tenantiaid dan sylw yn cefnogi'r cynigion trosglwyddo penodol.

### Dogfennau Ymgynghorol

**C11 David Davies:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau y caiff yr holl ddogfennau ymgynghorol a gyhoeddir gan ei hadrannau eu hanfon at y rhai yr ymgynghorir â hwy gan ganiatáu digon o amser i gyflwyno ymateb cywir? (OAQ10867)

**Edwina Hart:** Fel arfer caniatawn o leiaf chwe wythnos. Weithiau, nid yw hynny'n bosibl, fel yn achos rhai papurau ar y fframwaith moesegol newydd a fydd yn effeithio ar bob cyngor cymuned, lle ceir dyddiad deddfwriaethol pendant i lynu wrtho. Yn yr achos penodol hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau a geir hyd at y Pasg. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn ymgynghori agored ar y fframwaith moesegol i bawb sydd â diddordeb, un ym Merthyr Tudful ar 11 Ebrill ac un yn Wrecsam ar 19 Ebrill.

**Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru**

**C12 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ystadegau sydd ar gael ar allgáu cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ10830) [W]

**Edwina Hart:** Nid oes yr un dangosydd unigol sydd yn gallu mesur allgáu cymdeithasol. Mae'r adroddiad, 'Mapio Dieithrwch Cymdeithasol yng Nghymru', yn cynnig 50 o ystadegau sydd yn ymwneud â ffactorau y tybir eu bod yn gysylltiedig ag allgáu cymdeithasol, sef incwm isel, diweithdra, iechyd gwael, cyrhaeddiad addysgol isel, byw mewn amgylchedd ffisegol gwael a lefelau troseddu uchel.

**Darparu Gwasanaethau (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C13 Alun Cairns:** Sut mae'r Gweinidog yn cydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan awdurdodau lleol yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ10881)

**Edwina Hart:** Cyflwynwyd cyngor sydd yn gydnaws â rheoliaeth o'r clwyf a pharhad gweithgareddau cyfreithlon.

**Pwyllgorau Archwilio Mewnol Annibynnol**

**C14 Cynog Dafis:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog llywodraeth leol i ddatblygu pwyllgorau archwilio mewnol annibynnol? (OAQ10821)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gael pwyllgorau o'r fath. Fodd bynnag, efallai eich bod yn ymwybodol bod y Comisiwn Archwilio wedi argymell yn gyson y dylai awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau archwilio i roi canolbwynt ar gyfer pob mater archwilio mewn awdurdod. Rhoddaf ystyriaeth i'r argymhelliad hwn i weld sut y gallai gyd-fynd â fframwaith y strwythurau gwleidyddol newydd y mae llywodraeth leol yn eu cyflwyno.

**Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo**

**C15 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chyfraniad cronfa adfywio'r meysydd glo i gymunedau Cymreig? (OAQ10812)

**Edwina Hart:** Mae'r cytundeb cymorth ariannol rhwng y Cynulliad ag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yn darparu ar gyfer cymorth grant o hyd at £3.42 miliwn dros gyfnod o dair blynedd hyd at 31 Fawrth 2002. Paratôdd yr ymddiriedolaeth adroddiad ysgrifenedig ar y gweithgareddau yng Nghymru fel rhan o gyflwyniad gerbron Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad ar 7 Chwefror 2001.

Adroddai fod 58 o brosiectau parhaus wedi cael cefnogaeth yng Nghymru hyd at 31 Rhagfyr 2000, gan dderbyn cyfanswm o £2.829 miliwn o gymorth grant.

Mae'r ymddiriedolaeth newydd ddynodi y bydd yn defnyddio'r holl nawdd a neilltuwyd, sef £3.42 miliwn, dros dymor y cytundeb ariannol presennol.

## Cynhwysiant Cymdeithasol

**C16 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a gyflawnwyd o ran cynhwysiant cymdeithasol ledled Cymru? (OAQ10901)

**Edwina Hart:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi sylw i broblemau tlodi ac anfantais gymdeithasol mewn amrywiol ffyrdd. Dadleuwyd adroddiad cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ar y maes blaenoriaeth hwn mewn Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth, ac amlinellwyd y polisïau a'r rhaglenni a roddir ar waith gyda'r bwriad o hybu cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru.

## Adolygu Trethi Busnes

**C17 Phil Williams:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu trethi busnes yng Nghymru? (OAQ10819)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn edrych ar y trethi busnes ar hyn o bryd fel rhan o'n hadolygiad ehangach o gyllid llywodraeth leol yng Nghymru.

## Ombwdsmon Tai

**C18 Dafydd Wigley:** A oes asesiad wedi'i wneud o'r angen am ombwdsmon tai yng Nghymru? (OAQ10816) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Gweithredu Rhaglenni Rhoi Cymru'n Gyntaf

**C19 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amserlen ar gyfer gweithredu rhaglenni Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ10825) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Lefel y Dreth Gyngor yng Nghymru

**C20 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y dreth gyngor yng Nghymru? (OAQ10904)

**Edwina Hart:** Oherwydd penderfyniadau am gyllidebau awdurdodau lleol bydd lefel y dreth gyngor yng Nghymru yn cynyddu 6 y cant ar gyfartaledd yn 2001-02.

## Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**C21 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran penderfynu pa gymunedau yng Nghymru a fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ10813)

**Edwina Hart:** Ar 28 Mawrth, ysgrifennais at arweinwyr y cynghorau sir yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gan ymestyn y dyddiad cau ar gyfer enwebu cymunedau i'w cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i 30 Ebrill 2001. Drwy wneud hyn, gellir pwyso a mesur yn llawn y ffactorau y dylid rhoi ystyriaeth iddynt a sicrhau bod partneriaid cymunedol yn cael eu cynnwys yn agos yn y broses.

## Tai mewn Aml-Ddeiliadaeth

**C22 Alun Pugh:** Pa broblemau sydd yn deillio o or-grynhoi tai mewn aml-ddeiliadaeth? (OAQ10902)

**Edwina Hart:** Gall gormod o dai mewn aml-ddeiliadaeth achosi problemau gyda chyflwr saernïol a rheolaeth tai o'r fath. Gall y problemau hyn gynnwys gorlenwi, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, tagfeydd traffig a pharcio, sŵn, llanastr, ysbwriel a phroblemau tenantiaeth yn deillio o berthynas wael gyda landlordiaid sâl. Gall hyn gael effaith andwyol hefyd ar gymeriad a mwyniant cymdeithasol yr ardal. Nod

cynigion y Llywodraeth i drwyddedu Tai mewn Aml-ddeiliadaeth yw sicrhau y caiff y sector hwn ei reoleiddio'n briodol.

### Y Dreth Gyngor yn Sir Benfro

**C23 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y dreth gyngor a godir yn Sir Benfro? (OAQ10808) ***Tynnwyd yn ôl.***

### System Fondio'r Dreth Gyngor

**C24 Gareth Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu system fondio'r dreth gyngor? (OAQ10822) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Tai Sector Cyhoeddus

**C25 Alun Cairns:** Beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud i wella tai sector cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ10866)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi ymrwymo i wella cyflwr tai yng Nghymru ac yr ydym yn ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer strategaeth dai genedlaethol yn ein papur, 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Cynigion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Strategaeth Dai Cenedlaethol'. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cynhwysfawr hwn, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cynnal adolygiad polisi o drosglwyddo stoc. Yr ydym hefyd wedi codi cyfalaf tai ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol strategaethau tai sydd yn rhoi sylw i'w blaenoriaethau lleol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Disgwyliwn i'r strategaethau lleol hynny fod, yn fras, yn unol â'r strategaeth genedlaethol arfaethedig.

### Treth Dwristiaeth

**C26 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnig y dylai awdurdodau lleol allu codi treth dwristiaeth? (OAQ10807) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Dyrannu Tai sydd yn Eiddo i'r Cyngor

**C27 David Lloyd:** A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i adolygu'r meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddyrannu tai sydd yn eiddo i'r cyngor? (OAQ10833) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Tai mewn Aml-Ddeiliadaeth

**C28 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chynlluniau i wella ansawdd tai mewn aml-ddeiliadaeth? (OAQ10903)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gyflwyno proses o drwyddedu gorfodol ar gyfer tai mewn aml-ddeiliadaeth. Mae ein papur ymgynghori 'Tai Gwell i Bobl Cymru', yn gofyn sut y dylai'r trefniadau newydd weithredu yng Nghymru. Yn y cyfamser, yr ydym yn annog pob awdurdod lleol i ystyried cyflwyno cynlluniau cofrestru, er mwyn gwella a chryfhau'r trefniadau presennol i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn aml-ddeiliadaeth.

### Cynghorau Cymuned

**C29 Gwenda Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gymell cymunedau Cymru i sefydlu cynghorau cymuned, lle nad oes yr un yn bodoli? (OAQ10836)

**Edwina Hart:** Gorwedda'r grym i sefydlu cynghorau cymuned yn nwylo cymunedau unigol. Yn ddiweddar, bu i'r Cyngor Partneriaeth drafod pwysigrwydd hyfforddi a datblygu ynghylch cynghorau cymuned a byddaf yn pwyso a mesur hyn.

### Arian i'r Cynulliad (Clwy'r Traed a'r Genau)

**C30 Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Llywodraeth yn San Steffan ynghylch dyrannu arian ychwanegol ac ar wahân i'r Cynulliad i helpu'r ardaloedd hynny yng Nghymru a effeithiwyd yn ddifrifol gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ10868)

**Edwina Hart:** Cyfarfyddaf yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a byddwn yn trafod amrywiol faterion, gan gynnwys y goblygiadau ariannol argyfwng clwy'r traed a'r genau i Gymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Hynt y Strategaeth Rheoli Gwastraff

**C6 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt strategaeth rheoli gwastraff y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ10896)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yr wyf yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ac amrywiaeth eang o rai sydd â diddordeb a chyrff eraill ar lunio papur ymgynghori ar gyfer strategaeth gwastraff newydd i Gymru. Bwriadaf ymgynghori ynghylch hyn ym mis Mai.

### Cymunedau Cynaliadwy ('Polisi Cynllunio Cymru')

**C7 Cynog Dafis:** Sut y bydd 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynorthwyo datblygiad cymunedau cynaliadwy? (OAQ10906)

**Sue Essex:** Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' drafft y Cynulliad ar hyn o bryd allan ar ymgynghoriad cyhoeddus ac, pan y'i cyflwynir ar ei ffurf derfynol, bydd yn gosod y fframwaith ar gyfer polisïau cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu swyddogaeth allweddol datblygu cynaliadwy ym maes cynllunio defnydd tir a chynhwysa ymrwymiad pennaf y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy yn ei gynllun datblygu cynaliadwy. Yn benodol, yng nghyd-destun y tir sydd ar gael ar gyfer tai, esbonia'r ddogfen yn glir yr angen i awdurdodau cynllunio lleol neilltuo safleoedd addas ar gyfer tai yn eu cynlluniau datblygu gyda'r bwriad o greu a chefnogi cymunedau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw. Pwysleisia'r arweiniad drafft, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, y dylid defnyddio safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas.

### Mwy o Reolaeth Gyhoeddus dros Railtrack

**C8 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog Trafnidiaeth y DU ynghylch ffyrdd y gellid sicrhau mwy o reolaeth gyhoeddus dros Railtrack yng Nghymru? (OAQ10923)

**Sue Essex:** Yn yr agenda strategol a gyhoeddodd ar 13 Mawrth, mae'r Awdurdod Rheilffordd Strategol eisoes yn disgrifio peirianweithiau newydd a all helpu i sicrhau nad yw Railtrack yn peryglu datblygu seilwaith strategol. I'r dyfodol, mae'n rhagweld y gall prosiectau seilwaith blaenllaw gael eu rheoli drwy gonsortia preifat, yn annibynnol ac, o bosibl, gan gynnwys cwmnïau trenau, cyn trosglwyddo'r gwaith wedi'i gwblhau i Railtrack ei gynnal a'i gadw.

Byddwch yn ymwybodol o gyhoeddiad John Prescott, y Dirprwy Brif Weinidog, ar 2 Ebrill am becyn £7.5 biliwn o fesurau ar gyfer y rheilffordd, am y berthynas newydd a gaiff ei sefydlu rhwng Llywodraeth

y DU a Railtrack ynghyd â'r penderfyniad i benodi cyfarwyddwr newydd ar gyfer buddiannau'r cyhoedd ar fwrdd Railtrack; gall ef weithredu fel llais pwerus ar ran y cyhoedd.

Cyhoeddwyd cyd-ymchwiliad cyhoeddus yr Athro Uff a'r Arglwydd Cullen i systemau gwarchod trenau ar 29 Mawrth. Mewn ymateb i'r adroddiad mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno system gwarchod trenau otomatig cynhwysfawr yn unol â'r safonau Ewropeaidd gorau. Caiff y rhaglen waith llawn her hon ei hategu gan reoliadau. Edrychaf ymlaen at glywed cynigion gweithredu'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch. Bydd y Comisiwn yn adrodd ar y cynnydd y mis Medi hwn.

## Arfarnu Ceisiadau am Grant Trafnidiaeth

**C9 Janice Gregory:** A yw'r Gweinidog yn newid y meini prawf a ddefnyddir i arfarnu ceisiadau am grant trafnidiaeth yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ10846)

**Sue Essex:** Trafodwyd y papur sydd yn ystyried pa gategorïau o geisiadau i'w gwahodd am gefnogaeth grant trafnidiaeth yn 2002-03 gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 7 Mawrth 2001.

Cynigiwyd gwahodd ceisiadau am:

- gefnogaeth ar gyfer costau paratoi cynlluniau seilwaith ychwanegol sydd yn cyfrannu at raglen adfywio cymunedol ehangach;
- cynlluniau ffyrdd sydd yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd yn unol â'r dyddiadau cychwyn dangosol yn y cynlluniau pecyn pum mlynedd sydd yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd; a
- phecynnau newydd a gyflwynir fel rhan o strategaeth consortiwm neu bartneriaeth holl gynhwysol gan gynnwys cynigion arloesol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus
- Lwybrau Diogel i'r Ysgol/Cymunedau Mwy Diogel a pherthnasau agosach gyda chyllid diogelwch y ffyrdd. Mae hwn yn amodol ar ganlyniad adolygiadau o'r Llwybrau Diogel i'r Ysgol a threfniadau diogelwch y ffyrdd

Rhoddir ystyriaeth i gynlluniau seilwaith ychwanegol gan gynnwys elfen ffyrdd neu gyfnewidfeydd a mesurau priodol eraill i'w cynnwys ar gyfer cefnogaeth i gostau paratoi rhaglenni, cyn belled â'u bod yn cyfrannu at adfywio cymunedol ehangach.

Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ddangos sut y bydd unrhyw gynigion yn cyfrannu at wella ansawdd bywyd ac adfywio economaidd y cymunedau yr effeithir arnynt os cânt eu cynnwys yn y rhaglen.

Cyflwynir gwahoddiadau i ymgeisio ac arweiniad ar gwblhau ceisiadau i awdurdodau lleol ym mis Mehefin eleni.

## Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd

**C10 Phil Williams:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda chynrychiolwyr busnes ynghylch cymhellion i gludo rhagor o nwyddau ar y rheilffyrdd? (OAQ10897)

**Sue Essex:** Y Cynulliad sydd yn gweinyddu'r cynllun grantiau cyfleusterau cludo yn-ôl-y-galw yng Nghymru. Mae fy swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr busnes i drafod chwe phrosiect penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oes yr un, eto, wedi symud ymlaen i'r cam ymgeisio ffurfiol.

Mae gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ei amcan llawn her ei hun, amcan a osodwyd arno gan Lywodraeth y DU dan ei chynllun 10 mlynedd, i gynyddu'r nwyddau a gludir ar y rheilffyrdd 80 y cant erbyn 2010. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi llunio ei strategaeth cludiant, gyda'r bwriad o gyflawni'r amcan hwn drwy gefnogi twf drwy fuddsoddi mewn mynediad a'r rhwydwaith a chefnogaeth refeniw wedi'i thargedu.

Mae’r Cynulliad a’r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn llunio cytundeb asiantaeth rhyngddynt, er mwyn cloriannu’r holl geisiadau grant ar gyfer cyfleusterau cludo ar ran y Cynulliad. Ni fydd hyn yn trosglwyddo unrhyw bwerau i’r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ond bydd yn galluogi ymgeiswyr i ddelio gyda thîm ymroddedig o’r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Bydd y Cynulliad yn cadw ei bwerau dros y gyllideb a gwneud penderfyniadau.

**Effaith Treillio Tywod (Arfordir De Cymru)**

**C11 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i’r Cynulliad am y gwaith sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fonitro effeithiau treillio tywod ar arfordir de Cymru? (OAQ10878)

**Sue Essex:** Gyda phob trwydded treillio tywod gyfredol ceir llu o amodau monitro amgylcheddol llym. Ymhlith y rhain y mae arolygon bathymetrig o ffynhonnell y tywod (traethellau fel arfer); proffilio traeth i fesur tueddiadau tymor hir; proffilio clogwyni os yn briodol, a’r dull diweddaraf, manwl o fodelu tir ar yr holl draethau ar Benrhyn Gwyr o Rhosili i Three Cliffs Bay—mae’r dechneg olaf hon yn awr yn ein galluogi i fesur newidiadau mewn swmp mewn unrhyw leoliad penodol. Mae’r dulliau arolygu presennol a ddefnyddir yn sicrhau monitro amgylcheddol effeithlon a pherthnasol yn rheolaidd ar draethau de Cymru ger y gwaith treillio tywod allan yn y môr.

Mae’r Cynulliad wedi cyllido gwaith ymchwil, ac mae’n dal i wneud hynny, yng nghyswllt hydrodynameg Môr Hafren ac Aber Afon Hafren, a’r modd y gall tynnu graean y môr, a gweithgareddau eraill, effeithio arno. Er enghraifft, mae gennym ymchwilydd sydd yn gweithio ar y system cynllunio a rheoli adnoddau graean y môr. Canlyniad i hyn yw cynllun monitro arfordir Morgannwg, a chaiff y canlyniadau eu cyflwyno mewn seminar dosbarthu ym mis Gorffennaf. Eleni mae’r Cynulliad hefyd wedi comisiynu gwaith gan Brifysgol Dwyrain Llundain, ar gyfer monitro tri-dimensiynol ar glogwyni’r môr ar hyd rhan o arfordir treftadaeth Morgannwg.

**Datblygiad Safleoedd Tir Llwyd (De Cymru)**

**C12 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar agwedd Gweithrediaeth y Cynulliad Cenedlaethol at ddatblygu safleoedd tir llwyd yn ne Cymru? (OAQ10887)

**Sue Essex:** Mae’r polisi cynllunio cenedlaethol, fel y’i gwelir yn ‘Arweiniad Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf’ (1999), yn pwysleisio’r angen am ddatblygu cynaliadwy a phwysigrwydd gwarchod cefn gwlad. Mae’r arweiniad yn ei gwneud yn glir y dylid datblygu safleoedd tir llwyd, pryd bynnag y bo hynny’n bosibl, yn hytrach na safleoedd tir glas ac y dylid defnyddio’r tir mewn ardaloedd trefol presennol yn effeithiol ac yn llwyr, gan gynnwys defnyddio tir diffaith, adfeiliedig nas ddefnyddir.

Adolygir y polisi cynllunio ar hyn o bryd ac mae’r ‘Polisi Cynllunio Cymru’ drafft, a gyflwynwyd i ymgynghori arno yn ddiweddar, yn cynnwys arweiniad gwell ar ddefnyddio tir mewn modd cynaliadwy. Pwysleisia’r arweiniad drafft y dylid defnyddio safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas pryd bynnag y bo hynny’n bosibl, ond mae’n cydnabod bod rhai safleoedd nad ydynt yn addas i’w hailddefnyddio oherwydd y lleoliad, presenoldeb cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr neu lefelau llygredd uchel.

**Mynd i’r afael â Cynhesu Byd-eang**

**C13 David Davies:** A oes unrhyw fesurau ychwanegol y gallai’r Cynulliad eu defnyddio i fynd i’r afael â byd-eang? (OAQ10873)

**Sue Essex:** Disgrifir swyddogaeth y Cynulliad yn y frwydr yn erbyn y newid hinsawdd yn adran 4 pennod 3 ‘Climate Change: the UK Programme’, a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd y llynedd. Bwriadaf gyhoeddi fersiwn estynedig o raglen y Cynulliad ar y newid yn yr hinsawdd, fersiwn a fydd yn adlewyrchu datblygiadau diweddar, yn ystod y misoedd nesaf.

Nid oes gennym, serch hynny, unrhyw le i fod yn hunanfodlon. Dywedai'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd 'Climate Change 2001: the Scientific Basis' y gallai tymheredd y byd godi oddeutu 5.5ºC os na wneir rhywbeth. Rhaid i ni gadw golwg barhaus ar yr ymdrechion a wnawn er mwyn sicrhau ein bod mor effeithiol â phosibl os ydym am osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

### Prosiect Greenways (Sir Benfro)

**C14 Christine Gwyther:** Sut y gall y profiadau a ddeilliodd o brosiect Greenways Sir Benfro gael eu defnyddio mewn datblygiadau tebyg yn y dyfodol? (OAQ10853) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Rhwydwaith Rheilffyrdd i Deithwyr

**C15 Peter Law:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda Railtrack, y rheoleiddiwr rheilffyrdd a gweithredwyr trenau ynghylch datblygu rhwydwaith rheilffyrdd i deithwyr yng Nghymru? (OAQ10863)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi cyfarfod â Railtrack, y rheoleiddiwr rheilffyrdd a'r holl gwmnïau trenau sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac maent yn gwbl ymwybodol o ddyheadau'r Cynulliad ar gyfer dyfodol y gwasanaethau trên yng Nghymru.

Bu'r Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ar ddatblygu'r fasnachfraint rheilffordd newydd i Gymru a'r Gororau, a bydd hwn yn dechrau gweithredu ar ffurf gysgodol yn yr hydref. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â'r bidwyr rhag-gymwysedig ar gyfer y fasnachfraint, ac maent hwythau hefyd yn deall dyheadau'r Cynulliad.

### Ymweliadau Gweinidogol i Etholaethau

**C16 Peter Black:** Pa brotocol a arferir gan y Gweinidog i roi gwybod i Aelodau Cynulliad am ei hymweliadau gweinidogol â'u hetholaethau a'u rhanbarthau? (OAQ10848)

**Sue Essex:** Y protocol yw y rhoddir gwybod i ACau ac ASau etholaethau am yr holl ymweliadau gweinidogol â'u hardaloedd fel mater o drefn.

### Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth

**C17 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod am y cynnydd a wnaethpwyd tuag at ddatblygu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth? (OAQ10909) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rheoli Gwastraff yng Nghymru (Tirlenwi)

**C18 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith sydd yn mynd rhagddo i leihau cyfraniad tirlenwi i reoli gwastraff yng Nghymru? (OAQ10845)

**Sue Essex:** Byddaf yn rhyddhau strategaeth gwastraff ddrafft i Gymru i ymgynghori arni ddiwedd Mai. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau a fwriedir i symud oddi wrth ein dibyniaeth bresennol ar dirlenwi a sicrhau y ceir y cyfleoedd gorau i ddefnyddio opsiynau cynaliadwy megis ailgylchu a chompostio. Ar ôl ei chwblhau, bydd y strategaeth hon yn cynnwys cynllun i ostwng swmp y gwastraff pydradwy a gaiff ei dirlenwi fel sydd yn ofynnol gan Gyfarwyddeb Tirlenwi CE.

Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi hefyd yn mynnu'n benodol bod y DU yn cyfyngu fwyfwy ar swmp y gwastraff trefol a anfonir i gladdfeydd erbyn 2020. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth eisoes wedi cytuno y dylai cyfran Cymru o gyfanswm y DU gael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy gyfrwng trwyddedau i anfon gwastraff trefol pydradwy i gladdfeydd. Bydd y

strategaeth gwastraff ddrafft yn ymgynghori ynghylch nifer o opsiynau ar gyfer rhoddi trwyddedau i awdurdodau a rhedeg y system drwyddedau.

### Safleoedd â Statws Cadwraeth Ffafriol

**C19 Helen Mary Jones:** Pa adnoddau fyddai eu hangen i sicrhau bod statws cadwraeth ffafriol i'r holl safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchod arbennig dynodedig tirol yng Nghymru? (OAQ10920)

**Sue Essex:** Rhaid i gamau a gymerir dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC), sydd yn darparu ar gyfer sefydlu rhwydwaith Natura 2000 sydd yn cynnwys ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchod arbennig, gael eu cynllunio i gynnal neu adfer gyda statws cadwraeth ffafriol y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir yn yr atodiadau i'r gyfarwyddeb. Mae'r gyfarwyddeb yn diffinio statws cadwraeth ffafriol cynefinoedd neu rywogaethau o safbwynt ei amrediad naturiol. Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn llunio cyngor ar weithredu'r darpariaethau hyn drwy reoli safleoedd unigol, rhywbeth a fydd yn darparu sail ar gyfer amcangyfrif yr adnoddau a fydd yn angenrheidiol i'r dyfodol ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchod arbennig (nid yw'r Gyfarwyddeb yn ymwneud â safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig). Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn bwriadu gwario £1.29 miliwn yn 2001-02 ar reoli a monitro safleoedd Natura 2000.

### Gwell Dealltwriaeth o Ddatblygu Cynaliadwy

**C20 Gareth Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru? (OAQ10917) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Astudiaeth Drafnidiaeth

**C21 Tom Middlehurst:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar ddatblygiadau diweddaraf yr astudiaeth drafnidiaeth a gomisiynwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r ffordd y mae'n effeithio ar gyffordd Woodbank ar ffin Glannau Dyfrdwy? (OAQ10850)

**Sue Essex:** Disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn yr haf.

### Atal Datblygiadau o ran Llosgwyr

**C22 Mick Bates:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyda'r bwriad o atal unrhyw ddatblygiadau pellach o ran llosgwyr yng Nghymru? (OAQ10888)

**Sue Essex:** Mae fy swyddogion yn gweithio mewn cysylltiad clòs ag Asiantaeth yr Amgylchedd a phartïon eraill wrth lunio strategaeth gwastraff i Gymru. Bydd y strategaeth hon yn hybu swyddogaeth ailgylchu a chompostio cyn belled ag y bo'n ymarferol; bûm yn bresennol mewn dau gyfarfod o'r fforwm gwastraff lle trafodwyd materion perthnasol a chynrychiolir yr Asiantaeth ar y fforwm.

### Adolygu Amodau Rhestredig sydd yn Segur

**C23 Elin Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu cyflwr adeiladau rhestredig sydd yn segur? (OAQ10915) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynydd yn Nifer y Teithwyr a Nwyddau ar Reilffyrdd Cymru

**C24 Janet Ryder:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod 50 y cant yn fwy o deithwyr ac 80 y cant yn fwy o nwyddau ar reilffyrdd Cymru? (OAQ10925) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Gymraeg yn y Polisi Cynllunio

**C25 Delyth Evans:** Pa ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg yn y polisi cynllunio? (OAQ10857)

**Sue Essex:** Mae 'Canllawiau Cynllunio (Cymru): PolisI Cynllunio, Adolygiad Cyntaf', Ebrill 1999 yn dynodi

'Lle bo defnyddio'r iaith Gymraeg yn gydran o ffabrig cymdeithasol cymunedmae'n briodol cymryd hyn i ystyriaeth wrth lunio polisïau defnyddio tir.'

Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20: 'Yr Iaith Gymraeg—Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio' ym mis Mehefin 2000. Ymgynghorwyd yn helaeth ar hwn a rhydd gyngor manylach i awdurdodau cynllunio ar eraill ar ddefnyddio'r arweiniad polisi presennol ar gynllunio a'r iaith Gymraeg.

Cyflwynwyd 'Polisi Cynllunio Cymru' i ymgynghori arno ym mis Chwefror ac fe'i diweddarwyd i adlewyrchu'r cyngor a gafwyd yn y Nodyn Cyngor Technegol. Cryfheir yr canllawiau o safbwynt y dylai'r *holl* awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae defnyddio'r iaith yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol. Dylai *pob* cynllun datblygu unedol gynnwys datganiad ar sut y mae wedi rhoi ystyriaeth i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut y mae unrhyw bolisïau sydd yn ymwneud â'r iaith yn rhyngweithio â pholisïau cynlluniau eraill.

## Masnachfraint Sengl i Gymru (Rheilffyrdd)

**C26 Alun Pugh:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol o safbwynt masnachfraint sengl i Gymru? (OAQ10889)

**Sue Essex:** Yr wyf fi, a swyddogion, wedi cyfarfod â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn rheolaidd, ac mae swyddogion o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi gwneud dau gyflwyniad gerbron Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad, ar lunio'r fasnachfraint newydd i Gymru a'r Gororau.

Mae fy swyddogion wedi cwrdd â'r bidwyr rhag-gymwysedig ar gyfer y fasnachfraint, a disgwylir iddi ddechrau gweithredu ar ffurf gysgodol yn yr hydref.

## Rhwydwaith y Cefnffyrdd

**C27 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rwydwaith y cefnffyrdd yng Nghymru? (OAQ10891)

**Sue Essex:** Mae 1,576 km o gefnffyrdd yng Nghymru gan gynnwys 133 km o draffyrdd. Mae'r cefnffyrdd yn ffurfio system genedlaethol o lwybrau strategol ar gyfer traffig trwodd. Maent yn hwyluso symudiad nwyddau a phobl rhwng y prif drefi yng Nghymru a thu hwnt.

Mae 'Gyrru Cymru Ymlaen: Adolygiad Strategol o Raglen Gefnffyrdd Cymru', a gyhoeddwyd ym 1998 yn disgrifio'r rhaglen cefnffyrdd i Gymru. Caiff swyddogaeth y rhwydwaith cefnffyrdd ei phwyso a'i mesur ymhellach yn y papur ymgynghori 'Fframwaith Trafnidiaeth i Gymru: Papur Ymgynghorol'; fe'i trafodir yn llawn mewn dadl Cyfarfod Llawn ym mis Ebrill.

Bwriedir cychwyn adolygiad pellach o'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Tai Cynaliadwy (Rheoliadau Cynllunio)

**C28 Janet Davies:** Sut y bydd rheoliadau cynllunio yn gweithio i gefnogi'r angen am dai cynaliadwy? (OAQ10922) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyflwyno Tocynnau Bysiau am Ddim i Bensiynwyr

**C29 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd a wnaethpwyd wrth gyflwyno tocynnau bysiau am ddim i bensiynwyr yng Nghymru? (OAQ10862) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Dulliau mwy Gwyrdd o Gludo Nwyddau

**C30 Phil Williams:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda busnesau yng Nghymru o safbwynt y potensial ar gyfer datblygu dulliau mwy gwyrdd o gludo nwyddau? (OAQ10898) ***Tynnwyd yn ôl.***